Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Plantos Limited**

**Tŷ Wern Fawr**
**Eastern Business Park, Lôn Wern Fawr**
**Llaneirwg**
**Caerdydd**
**CF3 5XA**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## 8 Mehefin 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Phlantos Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Plantos Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Hydref 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | '*Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.*' |

## Crynodeb


Arolygiad â ffocws yw hwn ac rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.

Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau cryf â'i gilydd ac â’r staff sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth da trwy'r cyfleoedd a ddarperir yn ystod amser bwyd ac arferion cyson. Mae gan y staff gymwysterau priodol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau dros gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn darparu ystod briodol ac apelgar o weithgareddau a phrofiadau i'r plant sy'n hybu chwilfrydedd, chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n addas ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran ac mae ganddo ardal awyr agored â chyfarpar da. Mae asesiadau risg ar waith ac mae'r adeilad yn saff ac yn ddiogel. Mae strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth glir yn y lleoliad. Nid yw'r maes ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn yr arolygiad blaenorol wedi'i fodloni. Mae’r arweinwyr yn gwerthuso'r lleoliad ac mae ganddynt gynlluniau i wella'r gwasanaeth.

## Llesiant

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus yn y lleoliad ac mae eu barn yn cael ei gwerthfawrogi. Mae'r plant yn mynd at y staff gofal i ofyn am sicrwydd neu gefnogaeth yn ôl yr angen. Maent yn sgwrsio ac yn rhannu gwybodaeth â'r staff y maent yn eu hystyried yn oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn gyson dda. Mae gan y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant iau yn eistedd wrth fwrdd ac yn helpu eu hunain i ddewis o ddiodydd iach a ffrwythau. Mae'r plant yn gymdeithasol ac yn sgwrsio yn ystod yr amser hwn gan benderfynu faint o amser sydd ei angen arnynt a symud ymlaen i weithgareddau eraill pan fyddant wedi gorffen.

Mae'r plant yn chwarae yn hyderus, gan ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn gyffredinol. Yn yr ardal awyr agored, maent yn dewis o ystod o weithgareddau megis cegin fwd, ffrâm ddringo a beiciau. Maent yn dangos parch ac yn derbyn pan fydd ffrindiau eisiau symud ymlaen i weithgareddau eraill. Mae'r plant yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cydweithio ac yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae dau blentyn yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio rhawiau i symud y dail o un rhan o'r ardd i'r llall.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff gofal yn creu awyrgylch tawel, croesawgar yn y lleoliad ac yn cydweithio i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli ymddygiad. Maent yn cefnogi'r plant yn dda i ryngweithio'n gadarnhaol ac yn feddylgar ag eraill. Maent yn siarad â'r plant ar eu lefel nhw, gan roi eu sylw llawn iddynt ac maent yn ymateb yn gadarnhaol. Fodd bynnag, ychydig iawn o Gymraeg achlysurol y mae'r staff yn ei defnyddio. Maent yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth reoli risgiau. Er enghraifft, roedd un aelod o staff yn cefnogi plentyn ar y ffrâm ddringo gan roi cymorth ac anogaeth briodol. O ganlyniad, roedd gan y plentyn ymdeimlad gwych o gyflawniad. Mae gan y staff gofal y cymwysterau gofal plant perthnasol, ac mae gan rai lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas i ddatblygu ystod o fedrau ac maent yn cefnogi'r plant yn dda yn eu chwarae.

Mae'r staff gofal yn deall yr angen i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu bwydlen iach i'r plant ac mae digon o fwyd ar gael. Mae'r staff gofal yn gwybod am alergeddau'r plant ac yn darparu ar eu cyfer yn briodol, gan gynnig dewis arall os oes angen. Mae gan y staff wybodaeth dda am ddiogelu a dywedwyd wrthym eu bod yn hyderus i adnabod arwyddion a symptomau cam-drin ac yn deall gweithdrefnau diogelu'r lleoliad. Maent hefyd yn gwybod am eu cyfrifoldeb eu hunain i adrodd am unrhyw bryderon i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion yn ymwneud â damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw anafiadau a allai fod gan y plant yn barod. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o ffurflenni yn cofnodi'r wybodaeth yn gywir.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu mewn modd sy'n galluogi'r plant i symud yn rhwydd a chael mynediad at adnoddau'n annibynnol. Mae ganddo ddwy ardal yn yr awyr agored sydd â chyfarpar da. Maent yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau echddygol bras gan ddefnyddio adnoddau ac offer megis ceir, beiciau, a ffrâm ddringo o ansawdd da. Mae'r plant yn defnyddio ardal awyr agored fawr dan do ar gyfer gweithgareddau dysgu y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae’r arweinwyr wedi datblygu ardal goetir ar gyfer cyfleoedd chwarae rôl trwy ddefnyddio cegin awyr agored, ffau a thân gwersyll. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw fannau dysgu a chwarae awyr agored yn cael eu defnyddio mor aml â phosibl i gefnogi chwarae a dysgu’r plant.

Mae ardaloedd mewnol ac allanol y lleoliad yn ddiogel ac mae camerâu teledu cylch cyfyng o amgylch yr adeilad. Mae’r staff gofal yn cynnal asesiadau risg effeithiol ar gyfer y safle sy'n nodi risgiau a'u dileu cyn belled ag y bo modd. Mae gatiau grisiau yn sicrhau bod grisiau a mynedfeydd i'r ystafelloedd yn ddiogel, ac mae'r plant yn cael mynediad i ystafelloedd penodol sy'n addas i'w hoedran ar gyfer cysgu. Mae ymwelwyr a'r staff yn cael eu llofnodi i mewn wrth ddod i mewn i'r adeilad, ac mae'r staff yn llofnodi allan wrth adael yr adeilad i hebrwng y plant i’r ysgol ac yn llofnodi i mewn wrth ddod oddi yno.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r arweinwyr yn cwblhau adolygiad ansawdd gofal yn flynyddol ac yn ysgrifennu adroddiad manwl a myfyriol sy'n cael ei rannu ag AGC a rhieni. Caiff y rhieni a'r plant gyfle i fynegi eu barn am y lleoliad. Mae datganiad o ddiben cynhwysfawr ar waith ac mae gan yr arweinwyr gynlluniau i wella'r lleoliad. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac mae'r arweinwyr yn adolygu'r rhain yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt wedi rhoi gweithdrefnau y 'polisi defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau electronig' ar waith yn llawn, gan nad oes ffôn symudol ar gyfer y lleoliad.

Mae'r arweinwyr wedi methu â hysbysu AGC am ddigwyddiad arwyddocaol. Gan fod hwn yn faes i'w wella ers yr arolygiad diwethaf, rydym bellach wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae gan y lleoliad ddau reolwr sydd â chyfrifoldebau clir yn rheolaeth y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae llyfryn y feithrinfa a'r cynllun gweithredol yn nodi bod y ddau reolwr yn ychwanegol i'r staff gofal. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad roedd y ddau reolwr wedi'u cynnwys yn y cymarebau i ofalu am y plant. Mae'r arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd a gosodir agendâu â ffocws ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn trafod arfarniadau a sesiynau goruchwylio staff ynghyd â recriwtio mewn cyfarfodydd rheoli. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r rheolwyr yn blaenoriaethu arfarniadau a sesiynau goruchwylio staff, ac o ganlyniad mae'r ansawdd a'r amlder yn anghyson. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod ganddynt gynlluniau i ailgyflwyno cyfarfodydd staff rheolaidd yn dilyn y pandemig.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Sicrhau bod pob damwain/digwyddiad ac anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cofnodi'n gywir.

A2 Datblygu ansawdd arfarniadau staff a sicrhau sesiynau goruchwylio reolaidd ar gyfer yr holl staff.

A3 Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn gweithdrefnau yn y polisi ffonau symudol.

A4 Sicrhau bod, bob amser, aelod ychwanegol o staff ar gael, ac nad yw'r person hwnnw'n cael ei gynnwys mewn unrhyw gyfrifiad o gymarebau oedolyn:plentyn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfiad yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Mae'r darparwr wedi methu â hysbysu AGC am ddigwyddiad arwyddocaol. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl hysbysiadau perthnasol yn cael eu gwneud o fewn yr amserlenni gofynnol. | Ni chyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/07/2022